



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Rhifyn 27 – 19/07/2021

Diweddariad BIP CTM ynghylch brechu rhag COVID-19

Y ffigurau



Mae BIP Cwm Taf Morgannwg wedi rhoi **605,994** o frechiadau i bobl. Mae modd rhannu'r rhif hwn yn ddwy ran – mae **326,717** o bobl wedi cael eu dos gyntaf, a **279,277** o bobl wedi cael eu hail ddos.

**Dyma'r nifer a gafodd ei gofnodi yn System Imiwneiddio Cymru (Welsh Immunisation System). Bydd y nifer wirioneddol yn cynyddu wrth i gofnodion System Imiwneiddio Cymru gael eu diweddarau. Roedd y nifer hwn yn gywir am 00:01am ar 19.07.2021.*

Penawdau

- Yr wythnos hon:
 - Yn ein **canolfannau brechu cymunedol**: Y prif grŵp yn ein canolfannau brechu cymunedol yr wythnos hon fydd pobl yng **ngrŵp blaenoriaeth 10* (y rheiny rhwng 30-39 oed)**, fydd yn cael eu hail ddosau. Rydyn ni wedi brechu **mwya hanner** y grŵp oedran hwn yn llawn (53%). Mae tua 2,000 o apwyntiadau yn weddill i'r rheiny rhwng 40 a 49 oed gael eu hail bigiadau ac, yn dibynnu ar y niferoedd, bydd pobl ifanc 18-29 oed yn dod i mewn i'n canolfannau yr wythnos hon hefyd i orffen cael eu brechu. **Rhaid bod apwyntiad gyda chi i gael eich ail ddos. Allwch chi ddim galw heibio.** Bydd ein clinigau cerdded-i-mewn yn digwydd ar y cyd ag apwyntiadau ar gyfer yr ail ddos. Os nad ydych chi wedi cael eich dos gyntaf, gallwch chi gerdded i mewn i unrhyw un o'n canolfannau brechu cymunedol a chael y brechlyn yn y fan a'r lle. Mae mwy am hyn isod.
 - Mewn **gofal sylfaenol**: Erbyn hyn, mae ein timau gofal sylfaenol wedi gorffen eu rôl yn y cam hwn o'r rhaglen frechu ar ôl rhoi'r ddos gyntaf a'r ail ddos i bobl. Roedd holl feddygfeydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn rhan o'r rhaglen a chwaraeodd pob un ran allweddol yn yr ymdrech i frechu'r boblogaeth. Mewn cyn lleied â saith mis ers dechrau'r flwyddyn, maen nhw wedi rhoi 228,000 o ddosau i'n trigolion (dosau cyntaf ac ail ddosau). Mae nifer fach o bobl yng **ngrŵp 6*** heb gael eu hail ddos a byddwn ni'n brechu'r rheiny yn ein canolfannau brechu cymunedol. Mae'r rheiny yng ngrŵp 6 gafodd eu dos gyntaf yn un o'n canolfannau brechu cymunedol wedi cael apwyntiad i fynd i ganolfan frechu gymunedol ar gyfer eu hail ddos.
- Yn ôl ffigurau heddiw, mae **tri chwarter yr oedolion yng Nghwm Taf Morgannwg wedi cael eu brechu'n llawn erbyn hyn**. O ran niferoedd, mae bron 280,000 (279,277) o oedolion, sef 76%, wedi cael y ddwy ddos. Mae'r ffigur hwn yn anhygoel, ac fel Bwrdd Iechyd, rydyn ni'n parhau i ymdrech i wella fyth ar y ffigur hwn. Hoffem ni bwysleisio pa mor bwysig yw cael y ddwy ddos er mwyn cael eich diogelu'n llawn, yn enwedig rhag amrywiolyn Delta. **Mae 326,717 o bobl wedi cael eu dos gyntaf, sef naw o bob 10 oedolyn (89%)**. Cofiwch ei bod hi'n haws nag erioed cael eich dos gyntaf drwy fynd i'n clinigau cerdded-i-mewn (manylion isod).

- Ar adeg ysgrifennu hyn, rydyn ni'n aros i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gyhoeddi cyngor diweddaraf y JCVI ynglŷn â brechu'r rheiny dan 18 oed. Hyd yn hyn, dydyn ni ddim wedi brechu pobl ifanc 16-18 oed oni bai eu bod nhw yng ngrŵp blaenoriaeth 4 a 6 (y rheiny sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol neu'r rheiny gyda chyflyrau iechyd isorweddol), yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Byddwn ni'n asesu'r canllawiau newydd ac yn diweddarau ein cynlluniau yn unol â hynny.
- Fel y soniwyd uchod, mae pob un o'n **canolfannau brechu cymunedol** erbyn hyn yn **glinigau cerdded-i-mewn** ar gyfer **dosau cyntaf** (ochr yn ochr ag apwyntiadau ar gyfer yr ail ddos). Os ydych chi'n 18 oed neu'n hŷn, yn byw yng Nghwm Taf Morgannwg a heb gael eich dos gyntaf eto, gallwch chi fynd i unrhyw un o'n pum canolfan frechu gymunedol i gael eich pigiad, a byddem ni'n eich annog chi i wneud hynny. Dyma gyfeiriadau ein canolfannau yn ogystal ag amserlen yr wythnos hon (dydy pob un ddim ar agor ar y penwythnos).

Dyma fanylion canolfannau brechu cymunedol BIP CTM:

- Llantrisant (Canolfan Hamdden Llantrisant, CF72 8DJ)
- Pen-y-bont ar Ogwr (Ravens Court, CF31 4AP)
- Merthyr Tudful (Canolfan Hamdden Merthyr Tudful, CF48 1UT)
- Aberpennar (Canolfan Fowlio Dan Do Cwm Cynon, CF45 4DA)
- Rhondda (Canolfan Chwaraeon Rhondda, CF41 7SY)

Amserlen ar gyfer yr wythnos sy'n dechrau ar 19 Gorffennaf 2021

Gallwch chi gerdded i mewn rhwng 9.15am a 4.30pm (Llun – Gwener)


Canolfan	Llun	Mawrth	Mercher	Iau	Gwener	Sadwrn	Sul
Llantrisant	✓	✓	✓	✓	✓	X	X
Pen-y-bont ar Ogwr	✓	✓	✓	✓	✓	X	X
Merthyr Tudful	✓	✓	✓	✓	✓	X	X
Aberpennar	✓	✓	✓	✓	✓	X	X
Rhondda	✓	✓	✓	✓	✓	X	X

- Os ydych chi am gael eich dos gyntaf ond dydych chi ddim am alw heibio, gallwch chi drefnu apwyntiad trwy ein ffurflen ar-lein. Mae rhagor o fanylion, yn ogystal â'r ffurflen i'w llenwi, i'w gweld yma: [Gwybodaeth am y brechlyn rhag COVID-19 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)
- Rydyn ni wedi cael nifer o gwestiynau ynglŷn â theithio dramor a Phàs COVID y GIG, yn ogystal â'r straeon diweddar yn y cyfryngau

nad ydy rhai gwledydd yn Ewrop yn derbyn brechlynnau o India. Fel Bwrdd Iechyd, dydyn ni ddim yn dosbarthu Pasiâu COVID y GIG. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru am fanylion ynglŷn â theithio dramor a sut i gael pàs digidol. Mae'r wefan wedi ei diweddarau heddiw ac mae'r wybodaeth am deithio dramor i'w gweld yma: [Rules for foreign travel to and from Wales: coronavirus \(COVID-19\) | GOV.WALES](https://gov.wales/rules-for-foreign-travel-to-and-from-wales-coronavirus-covid-19). Yn ogystal â hynny, rydyn ni wedi cael nifer fawr o gwestiynau ynglŷn ag adroddiadau yn y cyfryngau fod posibilrwydd na fydd rhai llwythi o frechlynnau'n cael eu derbyn mewn rhai gwledydd fel rhan o'r pàs digidol. Unwaith eto, fel Bwrdd Iechyd, dydyn ni ddim yn gyfrifol am y pasiau digidol felly, yn anffodus, allwn ni ddim helpu ymhellach. Hyd y gwyddom ni, daeth hyn yn sgil dyfalu a chamddeall ymhlith y cyfryngau ar lefel y DU. Mae Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r broblem bosib hon ac wedi rhyddhau'r datganiad hwn: *Bydd pob brechlyn AstraZeneca a roddwyd yn y DU yn ymddangos ar Bàs COVID y GIG fel Vaxzevria, a'r un cynnyrch ydynt. Mae'r Asiantaeth Feddyginiaethau Ewropeaidd wedi awdurdodi'r brechlyn hwn ac rydym yn hyderus na fydd effaith ar deithio. Mae pob dos sydd wedi'i ddefnyddio yn y DU wedi bod drwy wiriadau trwyadl o ran diogelwch ac ansawdd, gan gynnwys profi llwythi unigol ac archwilio safleoedd, gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd.*

*Mae crynodeb Iechyd Cyhoeddus Cymru o bwy sy'n perthyn i grwpiau 1-9 isod: Grŵp 10 yw'r boblogaeth oedolion sy'n weddill (Dan 50 oed)


Brechlyn COVID-19



Bydd y bobl sy'n wynebu'r perygl mwyaf o COVID-19 yn cael eu blaenoriaethu yn gyntaf. Os ydych yn gymwys i gael y brechlyn, arhoswch i rywun gysylltu â chi.

Y rhestr flaenoriaeth ar gyfer cael brechlyn Coronafeirws yw:

<p>1 preswylwyr a gweithwyr mewn cartref gofal ar gyfer oedolion hŷn</p> <p>2 pawb 80 oed a throsodd a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol rheng flaen</p> <p>3 pawb 75 oed a throsodd</p> <p>4 pawb 70 oed a throsodd ac unigolion sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol</p>	<p>5 pawb 65 oed a throsodd</p> <p>6 pob unigolyn 16 oed i 64 oed sydd â chyflyrau iechyd sylfaenol sy'n eu rhoi mewn mwy o berygl</p> <p>7 pawb 60 oed a throsodd</p> <p>8 pawb 55 oed a throsodd</p> <p>9 pawb 50 oed a throsodd</p>
--	---



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

Ewch i:
icc.gig.cymru/brechlyn-covid-19



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Y sefyllfa ar hyn o bryd i Grwpiau Blaenoriaeth 1–10

Roeddem ni am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am statws presennol pob grŵp blaenoriaeth. Rydym ni wedi rhannu rhai o'r grwpiau blaenoriaeth yn a, b a c. Dim dyna sut rydym ni'n rhoi'r brechlyn; unig nod hyn yw dangos bod niferoedd gwahanol o'r un grŵp o bosibl yn mynd i leoliad gwahanol i gael eu brechlyn, bod rhywun yn cysylltu â nhw mewn ffordd ychydig yn wahanol neu o bosibl eu bod yn derbyn brechlyn gwahanol. Ni ddylid cymryd o hyn fod un 'is-grŵp' yn bwysicach nag un arall; unig nod hyn yw rhoi'r wybodaeth fwyaf manwl i chi o ran statws.

Byddwn ni'n parhau i ddilyn arweiniad y JCVI a brechu yn ôl oedran.

- **Grŵp Blaenoriaeth 1 - Preswylwyr a staff mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau, ac mae gwaith ar y gweill i breswylwyr newydd a staff newydd mewn cartrefi gofal i oedolion hŷn gael eu brechu.
- **Grŵp Blaenoriaeth 2a – Pobl 80 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 2b – Gweithwyr iechyd rheng flaen**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau, ac mae gwaith ar y gweill i weithwyr newydd y GIG ar y rheng flaen gael eu brechu.
- **Grŵp Blaenoriaeth 2c – Gweithwyr gofal cymdeithasol rheng flaen**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau, ac mae gwaith ar y gweill i weithwyr gofal cymdeithasol newydd ar y rheng flaen gael eu brechu.
- **Grŵp Blaenoriaeth 3 – Pobl 75 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 4a – Pobl 70 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 4b – Unigolion eithriadol o agored i niwed yn glinigol (y rhai a dderbyniodd lythyrau am 'warchod')**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 5 – Pobl dros 65 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 6a a b, pobl 16 - 64 oed gyda chyflyrau iechyd isorweddol a gofalwyr di-dâl**
 - Erbyn hyn, mae 82% o'r grŵp hwn wedi cael dwy ddos o'r brechlyn.
- **Grŵp Blaenoriaeth 7 – Pobl 60 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 8 – Pobl 55 oed a throsodd**
 - Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp Blaenoriaeth 9 – Pobl 50 oed a throsodd**

- Mae'r grŵp hwn wedi ei gwblhau (â'r ddos gyntaf a'r ail ddos).
- **Grŵp blaenoriaeth 10 – yr oedolion cymwys sy'n weddill**
 - **Grŵp 10a Pobl 40-49 oed:** Mae 2,000 o bobl yn y grŵp hwn heb gael eu hail ddos eto a bydd yr apwyntiadau hynny yn ein canolfannau brechu cymunedol yr wythnos hon. Yna, mae'n debyg y bydd y grŵp hwn wedi ei gwblhau.
 - **Grŵp 10b Pobl 30-39 oed:** Dyma fydd y prif grŵp sy'n dod trwy ein canolfannau brechu cymunedol yr wythnos hon ar gyfer eu hail ddos. Mae mwy na hanner y grŵp hwn (53%) eisoes wedi cael eu brechu'n llawn. Os oes apwyntiad gyda chi ac os na allwch gadw ato, ffoniwch y rhif ar eich llythyr er mwyn aildrefnu neu llenwch y ffurflen ar-lein: [Manylion – Diweddarw apwyntiad am y brechlyn \(rctcbc.gov.uk\)](http://rctcbc.gov.uk) Mae'n bwysig iawn eich bod cael y ddwy ddos er mwyn cael y diogelwch gorau posib rhag COVID-19, ac yn arbennig rhag amrywiolyn Delta. **I'r rheiny sy'n perthyn i'r grŵp hwn sydd heb gael eu dos gyntaf eto ac sy'n dymuno gwneud hynny, gallwch chi alw heibio unrhyw un o'n canolfannau brechu cymunedol (manylion uchod).**
 - **Grŵp 10c Pobl ifanc 18-29 oed:** Os ydych chi wedi cael eich dos gyntaf ac yn perthyn i'r grŵp oedran hwn, dylech chi glywed gennym ni'n fuan, neu'n maen bosib eich bod chi eisoes wedi cael apwyntiad ar gyfer eich ail ddos. Mae 30% o'r grŵp hwn eisoes wedi cael eu brechu'n llawn. **I'r rheiny sy'n perthyn i'r grŵp hwn sydd heb gael eu dos gyntaf eto ac sy'n dymuno gwneud hynny, gallwch chi alw heibio unrhyw un o'n canolfannau brechu cymunedol (manylion uchod).**

Tabl 1 – Cyfanswm y brechlynnau sydd wedi cael eu rhoi ym mhob ardal Awdurdod Lleol

Cyfanswm nifer y brechiadau hyd at: 00:01am ddydd Llun 19 Mehefin	CBS Pen-y-bont ar Ogwr	CBS Rhondda Cynon Taf	CBS Merthyr Tudful	Cynghorau bwrdeistref sirol eraill (Mae'r rhif hwn yn cynnwys staff Cwm Taf Morgannwg sy'n byw y tu allan i'r 3 Awdurdod Lleol)
Nifer y dosau cyntaf ac ail ddosau	190,633 o frechlynnau	323,018 o frechlynnau	77,555 o frechlynnau	14,788 o frechlynnau

Nifer y bobl sydd wedi derbyn y ddwy ddos (wedi'u brechu'n llawn)	87,071 o bobl	149,583 o bobl	35,815 o bobl	AMHERTHNASOL
---	---------------	----------------	---------------	--------------

I gael rhagor o wybodaeth:

Darllenwch ein Cwestiynau Cyffredin. Maen nhw i'w gweld ar ein gwefan: [Gwybodaeth am y brechlyn rhag COVID-19 – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)

Mae ein cwestiynau cyffredin yn seiliedig ar ein rhaglen frechu, Am fwy o wybodaeth ynglŷn â diogelwch y brechlyn ac ati, ewch i weld cwestiynau cyffredin Iechyd Cyhoeddus Cymru: Cliciwch yma <https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/gwybodaeth-brechlyn-covid-19/>

Dyma gyngor manwl y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ynghylch grwpiau blaenoriaeth: [Y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu: cyngor ynghylch grwpiau blaenoriaeth ar gyfer brechu rhag COVID-19, 30 Rhagfyr 2020 - GOV.UK \(www.gov.uk\).](#)

Mae rhagor o wybodaeth fanwl ynglŷn â'r cyngor hwn, ac yn enwedig manylion ynghylch pa gyflyrau iechyd isorweddol sydd wedi eu cynnwys yng ngrŵp 6, i'w gweld yn Llyfr Gwyrdd – Imiwneiddio Rhag Clefydau Heintus. Ewch yma am fwy o wybodaeth: [Imiwneiddio rhag clefydau heintus – GOV.UK \(www.gov.uk\) \(Saesneg\)](#)

Rydyn ni wedi sefydlu llinell gyngor arbennig ar gyfer y rhaglen frechu. Sylwch nad ydy'r tîm yn gallu trefnu apwyntiadau nac ateb cwestiynau clinigol.

Mae'r llinell ar agor 7 diwrnod yr wythnos rhwng 9am a 4.30pm.

Y rhif yw **01685 726464**.

Mae cyfeiriad e-bost arbennig hefyd.

E-bostiwch: CTM.VaccinationEnquiries@wales.nhs.uk